Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

6 Gorffennaf 2022

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

*Ymgysylltiad y Gyllideb*

Ar 11 Ebrill, ysgrifennais i roi gwybod ichi am raglen ymgysylltu'r Pwyllgor Cyllid ar gyfer ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 sydd ar ddod. Mae'r Pwyllgor bellach wedi cwblhau ei dri maes ymgysylltu:

- digwyddiad i randdeiliaid yn Sefydliad y Glowyr Llanhiledd;
- gweithdy gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru; a
- grwpiau ffocws gyda'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae adroddiad ymgysylltu wedi'i gyhoeddi sy'n crynhoi'r ymatebion a gawsom yn ystod ein gwaith ymgysylltu.

*Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru*

Ar 13 Gorffennaf, bydd y Pwyllgor yn cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru a bydd yr adroddiad ymgysylltu y cyfeirir ato uchod yn cael ei gynnwys fel dogfen ategol ar gyfer y ddadl.

Credwn fod y ddadl hon yn rhoi'r cyfle gorau i'r Aelodau ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn llunio'r gyllideb ddrafft yn yr hydref a byddwn yn annog y Pwyllgorau i gyfrannu at y ddadl bwysig hon a phwyso am weithredu yn eu meysydd diddordeb.

*Yr amserlen a'r dull o graffu ar y gyllideb*

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU y llynedd am setliad aml-flwyddyn, roedd y Pwyllgor wedi gobeithio y byddem yn dychwelyd i broses 'cyllideb arferol' eleni, ar ôl sawl blwyddyn o graffu cyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu i egluro na fydd y diffyg sicrwydd ynghylch y pwysau sylweddol sy'n wynebu cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn cael ei ddatrys hyd nes bod Llywodraeth Cymru yn gwybod a fydd ei setliad yn newid mewn unrhyw ddigwyddiad Cyllidol yr Hydref yn y DU.

Gofynnodd y Gweinidog am farn y Pwyllgor ar yr amserlen a ffefrir ar gyfer cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, gyda'r opsiwn a ffefrir gennym sef ei fod yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref i alluogi wyth wythnos ar gyfer gwaith craffu, gyda'r gyllideb derfynol yn cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr.

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd bellach wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i'w hysbysu bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r cyllidebau drafft amlinellol a manwl gyda'i gilydd erbyn 13 Rhagfyr fan bellaf neu o fewn pedair wythnos i gyllideb yr hydref Llywodraeth y DU. Cadarnhaodd y Trefnydd hefyd y bydd yn diweddaru amserlen y gyllideb yn nhymor yr hydref, cyn gynted ag y bydd manylion digwyddiad cyllidol y DU yn hysbys.

O ystyried y bydd cyhoeddi'r gyllideb ddrafft yn cael ei ohirio eto eleni, bydd galwad y Pwyllgor am dystiolaeth yn digwydd ym mis Medi. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto gyda rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad, ac unrhyw ddiwygiadau i amserlen y gyllideb, maes o law.

*Protocol Proses y Gyllideb*

Mae Protocol Proses y Gyllideb rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru wedi bod ar waith ers 2017. Mae'r protocol yn nodi'r ddealltwriaeth rhwng y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru ar y trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r gyllideb.

Dyma’r bedwaredd flwyddyn yn olynol lle nad yw proses dau gam y gyllideb wedi’i defnyddio ac mae gwaith craffu wedi’i gwtogi oherwydd amgylchiadau eithriadol. Er ein bod yn cydnabod bod oedi wedi digwydd oherwydd ansicrwydd cyllid gan Lywodraeth y DU, mae prosesau cyllidebol byrrach yn dod yn gyffredin ac, fel Cadeirydd, nid wyf yn dymuno cael trafodaethau tebyg ynghylch materion amserlennu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Am y rheswm hwn, rwyf wedi gofyn i’r Gweinidog ymrwymo i adolygiad o brotocol proses y gyllideb cyn rownd y gyllideb ar gyfer 2024-25 i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben.

Os oes gennych unrhyw sylwadau am brofiad eich Pwyllgor o graffu ar y gyllideb, byddwn yn ddiolchgar o glywed gennych.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso ichi gysylltu â mi neu Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388 neu yn seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.